



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Sylwadau HMI o Heddlu Gwent

Rwyf yn falch iawn ar berfformiad cyffredinol Heddlu Gwent.

Mae Heddlu Gwent yn dda o ran atal troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r llu'n ymgysylltu'n effeithiol â phobl Gwent i nodi'r problemau sy'n peri pryder iddynt. Mae'n gweithio'n dda gyda sefydliadau partner, ac yn defnyddio ymagwedd strwythuredig tuag at ddatrys problemau.

Rwyf yn fodlon iawn ar safon uchel ymchwiliadau troseddau'r llu. Mae camau cychwynnol ymchwiliadau, gan gynnwys y cyfnod cynnar o gasglu tystiolaeth, yn cael eu cynnal yn dda. Dyrennir troseddau i ymchwilyr â'r sgiliau a phrofiad priodol, ond mae angen i'r llu wella sut mae ymchwiliadau'n cael eu goruchwylio wedyn. Mae gan Heddlu Gwent gynllun integredig effeithiol i reoli troseddau, ac mae'n gweithio'n dda gyda sefydliadau partner i leihau'r risg a gyflwynir gan droseddau peryglus a rhywiol.

Mae Heddlu Gwent yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn dda, yn arbennig dioddefwyr cam-drin domestig. Mae gan y llu wybodaeth leol dda o natur a graddfa hyglwyfder, ond nid yw ei systemau gwybodaeth yn nodi dioddefwyr hyglwyfder a mynych fel mater o drefn. Mae ei ymateb i blant coll yn dda, gyda phrosesau effeithiol i nodi a mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae angen i'r llu wella cysondeb y broses asesu risg a gynhelir gan drafodwyr galwadau.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth gyfyng o'r bygythiad a gyflwynir gan droseddau difrifol a threfnedig. Rwyf wedi cael sicrwydd ei fod yn gweithio gyda sefydliadau partner i drafod hyn.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth dda o'r galwadau cyfredol a rhai'r dyfodol am ei wasanaethau, gan gynnwys galwadau cudd bondigrybwyll megis troseddau ar y rhynggrwyd. Mae'r llu wedi gweithio gyda sefydliadau partner i ddeall eu cyfrifoldebau unigol a chasgliadol, ac i wella'r broses o gyfeirio ceisiadau am wasanaethau i'r sefydliad mwyaf priodol.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth dda o sgiliau a gwybodaeth ei weithlu, yr hyn mae'n eu defnyddio i lywio'r ffordd y dyrennir ei adnoddau. Mae'r llu'n buddsoddi'n dda, ac yn adolygu buddion y newidiadau mae'n eu gwneud yn drwyadl.

Mae gan Heddlu Gwent gynlluniau ariannol cryf a adeiladir ar ragdybiaethau cadarn ac mae'n deall y bylchau posibl yng nghyllid y dyfodol. Rwyf wedi cael sicrwydd gan ddealltwriaeth fanwl y llu o'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol sydd, ynghyd â'i

ddealltwriaeth o'r galwadau tebygol am ei wasanaethau, wedi llywio eu cynlluniau buddsoddi cynhwysfawr. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys buddsoddiad pellach mewn technoleg ddigidol.

Rwyf yn falch o weld bod y llu'n defnyddio amrediad o ymagweddau arloesol i geisio adborth gan bobl Gwent. Mae'n dda o ran defnyddio'r adborth hwn i wella ei arferion, ac mae'n gosod pwyslais neilltuol ar adeiladu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

Rwyf yn fodlon bod y llu'n cynnal ymddygiad moesegol a chyfreithlon yn gyson yn ei weithlu, a bod ei uned wrth-lygredd yn effeithiol o ran nodi bygythion i uniondeb y sefydliad, gan gynnwys ymddygiad rhywiol rheibus. Fodd bynnag, mae angen i'r llu drafod yr ôl-groniadau o ran fetio ei weithlu i'r lefel briodol .

Rwyf yn falch bod Heddlu Gwent yn cefnogi lles ei weithlu trwy amrediad o fesurau ymarferol. Mae'r llu'n ceisio barnau ei weithlu'n rheolaidd ac mae'n dda o ran gweithredu ar eu hawgrymiadau.

I grynhoi, mae'r llu'n darparu lefel dda o wasanaeth i bobl Gwent. Rwyf yn falch ei fod wedi cynnal ei berfformiad ers fy asesiad blaenorol.

Cyd-destun

Mae Heddlu Gwent yn darparu gwasanaethau plismona i sir Gwent. Mae gan Went lefel uchel o dlodi, er bod rhai ardaloedd yn fwy cefnog. Mae ardal y llu'n gartref i oddeutu 0.6 miliwn o bobl yn byw yn bennaf yn ninas Casnewydd a threfi Glynabwy, Trefynwy a Chwibrân. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd uchel sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r sir bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafniadaeth yn cynnwys 112 o filltiroedd o draffyrdd a chefnffyrdd, a phorthladd môr.

Mae'r gyfran o ardaloedd yng Ngwent y rhagwelir (ar sail dadansoddiad economaidd a demograffig manwl) y byddant yn cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn isel iawn o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fel arfer nodweddir yr ardaloedd mwyaf heriol gan grynhoad uchel o bobl yn byw, cymdeithasu, neu deithio yn yr ardal.

Mae nodweddion sy'n achosi a/neu ddangos crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, mae'r nodweddion hyn wedi'u cyfuno.

Trefniadau gweithio

Mae Heddlu Gwent yn cydweithredu gyda Heddlu De Cymru, gan gynnwys plattform data symudol a rennir ac uned ymchwilio wyddonol, cyflenwi trefn strategol a gwasanaethau cyfreithiol a rennir, heblaw am systemau technoleg a gaffaelir ar y cyd.

Mae'r llu'n gweithio fel rhan o'r uned wrth-derfysgaeth Gymru gyfan ac mae gan y llu dîm arfau tanio ar y cyd gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r cydweithrediad Ystadau Plismona Cymru'n gwneud rhestr o opsiynau ar gyfer gwasanaeth ystadau ar y cyd ar gyfer plismona yng Nghymru, i leihau costau, gwella cadernid a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Edrych ymlaen at 2017

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen, bydd gen i ddiddordeb i weld sut mae'r llu'n ymateb i'r asesiad hwn ac i'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan HMIC llynedd.

Bydd gen i ddiddordeb arbennig i weld:

- sut mae'r llu'n gwella ei ddealltwriaeth o, ac ymateb i, y bygythiad gan droseddau difrifol a threfnedig; a
- sut mae'r llu'n gwella cysondeb trafodwyr galwadau wrth asesu risg.